# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Apelau*

## 5 Yr hawl i apelio

(1) Caiff gweithredwr sefydliad busnes bwyd apelio i'r awdurdod bwyd yn erbyn sgôr hylendid bwyd a roddwyd i'r sefydliad.

(2) Caniateir i apêl gael ei gwneud ar y naill neu'r llall o'r seiliau canlynol neu'r ddwy ohonynt—

- (a) nad yw'r sgôr yn adlewyrchu'n briodol y safonau hylendid bwyd yn y sefydliad adeg yr arolygiad;
- (b) nad oedd y meini prawf sgorio wedi eu cymhwyso'n gywir wrth lunio'r sgôr hylendid bwyd.

(3) Rhaid i apêl gael ei gwneud cyn pen 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y cafwyd hysbysiad am y sgôr hylendid bwyd.

(4) Rhaid i apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig ar y ffurf a ragnodir.

(5) Caiff awdurdod bwyd gynnal arolygiad pellach o'r sefydliad er mwyn ystyried y materion a godwyd mewn apêl.

(6) Rhaid i awdurdod bwyd benderfynu'r apêl a hysbysu gweithredwr y sefydliad a'r ASB am ei benderfyniad cyn pen 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y cafwyd yr apêl.

(7) Rhaid i'r apêl gael ei chynnal gan swyddog awdurdodedig na fu'n ymwneud ag asesu'r sgôr hylendid bwyd sy'n destun apêl.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu ar gyfer apêl o dan yr adran hon gael ei phenderfynu gan berson ac eithrio'r awdurdod bwyd.

(9) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn cynnwys pŵer—

- (a) i wneud darpariaeth am y weithdrefn i'w dilyn ar gyfer apelau;

(b) i wneud unrhyw ddiwygiadau i'r adran hon o ganlyniad i berson arall yn dod yn gyfrifol dros y penderfyniad y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(10) Os yw awdurdod bwyd yn penderfynu diwygio sgôr hylendid bwyd, rhaid iddo, wrth hysbysu'r sefydliad am ei benderfyniad, anfon at weithredwr y sefydliad—

(a) hysbysiad ysgrifenedig am ei sgôr hylendid bwyd diwygiedig;

(b) datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y sgôr;

(c) sticer sgôr hylendid bwyd newydd;

(d) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir.

(11) Pan fo awdurdod bwyd yn penderfynu diwygio sgôr hylendid bwyd, wrth iddo hysbysu'r ASB am ei benderfyniad rhaid iddo anfon i'r ASB gopi o'r hysbysiad a'r datganiad y cyfeirir ato yn is-adran (10).

(12) Nid oes unrhyw hawl bellach i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan is-adran (6).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 5(4)(10)(d) mewn grym ar 28.10.2013 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2617, **ergl. 2(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 28/10/2013.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Apelau.